# Basic Income Pilot for Care Leavers in Wales: Follow Up Survey

---

The Welsh Government has commissioned Coram Voice and the Children's Social Care Research and Development Centre (CASCADE) at Cardiff University to undertake the 'Your Life Beyond Care' survey as part of the Basic Income Pilot for Care Leavers in Wales.

Coram Voice and CASCADE will be gathering information through a survey. This information will help the Welsh Government understand how the Basic Income for Care Leavers in Wales Pilot is working and how it is impacting the lives of recipients.

The aim of this survey is to understand the how the basic income pilot affects your well-being. The survey asks about your life and how you feel. You were asked to take part in a survey at the start of the pilot and now, two years later the Welsh Government, Coram Voice and CASCADE are asking you to take part in a follow up survey. The reason that we are asking you to answer the survey twice is so that we can see how the basic income pilot impacts the lives of care leavers over the course of the pilot. You can still complete this survey if you did not complete the survey at the start of the pilot.

The Welsh Government is the data controller for the research.

The information collected during the project will be included in a report published on the Welsh Government website and other publications by Welsh Government (for example, the wider evaluation) and potentially CASCADE, Coram Voice and the Rees Centre at the University of Oxford. You will not be identifiable from the report.

You will be able to redeem a £20 shopping voucher as a thank you for taking part in the survey. The voucher will be provided to you by email or SMS from CASCADE.

The contact for this research at Coram Voice is Susanna Larsson. E-mail address: susanna.larsson@coramvoice.org.uk

Telephone number: 0207 239 7526

The contact for this research at CASCADE is David Westlake

E-mail address: basicincomecascade@cardiff.ac.uk

Telephone number: 02920 870 246



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## PRIVACY NOTICE

### What personal data do we hold and where do we get this information?

Personal data is defined under the UK General Data Protection Regulation (UK GDPR) as “any information relating to an identifiable person who can be directly or indirectly identified by reference to an identifier”.

The Welsh Government and CASCADE hold your name, date of birth, email address and telephone number. The Welsh Government and CASCADE hold these details because you provided them when you completed the payment form for the Basic Income for Care Leavers in Wales Pilot. The Welsh Government and CASCADE will use these to contact you with the survey.

You will be asked to share your name and date of birth as part of the survey. The reason this is needed is so that:

- Coram Voice and CASCADE can monitor survey response rates and ensure that the survey is completed by recipients of the basic income only.
- Your answers to the survey can be linked anonymously to other data sources as part of the Secure Anonymised Information Linkage (SAIL) databank for non-commercial research purposes only, unless you ask for this linkage to not take place (see the explanatory note at the end). The anonymised survey data is held securely and is only ever used for non-commercial research purposes. We do not share or use your information for commercial or marketing purposes.
- In the ‘Your Life Beyond Care’ survey, we ask for your contact details (email and telephone number) so that CASCADE can provide you with a £20 thank you voucher for taking part in the survey.

Coram Voice will create a survey and a general survey link that you use to complete the survey. The information you provide as part of the survey will be kept separately to your contact details so your responses to the questions in the survey cannot be linked back to you.

If you raise a query or complaint and provide personal data requesting a response, the researcher will forward the request only to the relevant official and subsequently delete it from the research data.

## Who has access to your information?

The Welsh Government has appointed CASCADE to undertake an evaluation of the Basic Income Pilot and Coram Voice to administer the Your Life Beyond Care Survey. This work is being undertaken under contract and the Welsh Government's standard terms and conditions for such contracts set out strict requirements for the processing and safekeeping of personal data. Your survey responses will be shared with Cardiff University (CASCADE) by Coram Voice for the purposes of informing the evaluation of the basic income pilot for care leavers in Wales.

The evaluation seeks to understand the impact the pilot has on the lives of those eligible for the pilot. Using your survey responses the evaluators aim to understand if any change in the lives of the participants can be attributed to the basic income pilot. This can be explored using your survey responses. Coram Voice will provide CASCADE with survey responses so that CASCADE can monitor survey response rates and analyse the survey responses.

When the research team at Coram Voice look at your answers, they will also remove any comments that could help someone guess who you are, for example if you wrote your Young Person Assistant's name.

For data to be linked anonymously in the SAIL databank, Coram Voice will share survey responses (only) with SAIL and then your details (name, date of birth and a unique survey ID without any of your survey responses) with the Welsh Government. The Welsh Government will provide Digital Health and Care Wales (DHCW) with your details (name, date of birth and unique survey ID) plus your National Insurance number (which you provided on enrolment). DHCW will then provide SAIL with a unique identifier to allow data to be linked within SAIL in a way that does not identify you.

Your local authority will not see your survey responses. **However, if you tell us that you or someone else is at serious risk of harm then we may have to tell your local authority, to keep you or them safe.**

## What is the lawful basis for using your data?

The lawful basis of processing information in this data collection exercise is our public task; that is, exercising our official authority to undertake the core role and functions of the Welsh Government.

Participation is completely voluntary. Research studies such as this are important for the Welsh Government to collect information and actionable evidence about its ability to deliver government priorities. For example, the information collected might be used:

- To understand how the basic income impacts recipients' lives.
- To understand the best ways for Welsh Government to support care leavers in Wales.

### How secure is any personal data submitted?

Personal information provided to Coram Voice is always stored in a 'secure data store' folder on the server and separate from your survey responses Only two staff members from the research team will have access to your name and date of birth. The information provided to CASCADE is stored in a secure area on their servers. Coram Voice and CASCADE have cyber essentials certification.

When conducting surveys, Coram Voice use a survey software programme called SmartSurvey. We have ensured that SmartSurvey is UK GDPR compliant and meets our expectations in terms of the security of any data collected via the software (e.g. all data is processed within the UK).

Coram Voice and CASCADE have put in place procedures to deal with any suspected data security breaches. If a suspected breach occurs, Coram Voice and CASCADE will report this to the Welsh Government, who will notify you and any applicable regulator where we are legally required to do so.

Coram Voice will use secure document transfer software to transfer any personal data to the Welsh Government, and to CASCADE and as part of sending information to DHCW and SAIL.

### How long do we keep your personal data?

Coram Voice will hold personal data during the contract and any personal data not already removed during data analysis will be deleted three months after the end of the contract. This includes your name, contact details and date of birth as well as any personal data you provide as part of your survey response.

Cardiff University will receive your data from Coram Voice and will delete within 3 months of the end of their contract with Welsh Government in 2027.

The Welsh Government will have access to your personal data and survey responses for a period of three months, until the data linking with Secure Anonymised Information Linkage (SAIL) is complete.

The NHS Digital Health and Care Wales (DHCW) also have access to a part of the personal data for a period of three months, until the data linking with Secure Anonymised Information Linkage (SAIL) is complete.

## Individual Rights

Under UK GDPR, you have the following rights in relation to the personal information you provide, you have the right to:

- Access a copy of your own data;
- Require us to rectify inaccuracies in that data;
- To object to or restrict processing (in certain circumstances);
- For your data to be 'erased' (in certain circumstances); and
- To lodge a complaint with the Information Commissioner's Office (ICO) who is our independent regulator for data protection.

The contact details for the Information Commissioner's Office are: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Phone: 0303 123 1113. Website: www.ico.gov.uk

## Further Information

If you have any further questions about how the data provided as part of this study will be used by the Welsh Government or wish to exercise your rights using the UK General Data Protection Regulation, please contact:

Launa Anderson (Knowledge and Analytical Services, Welsh Government)
Email: Launa.Anderson@gov.wales
Telephone 03000 259274


The Welsh Government's Data Protection Officer can be contacted at:
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ

Email: DataProtectionOfficer@gov.wales.

## Explanatory note

The SAIL Databank is a databank of anonymised data about the population of Wales, which is internationally recognised for the robust secure storage and use of anonymised person-based data for research to improve health, well-being and services. Respondents are able to opt out of having their answers linked. For more information on how to do that or on data linking, please visit *Bright Spots Survey* page on the Coram Voice website.

# How do we link your survey answers to other information?



# Cynllun peilot incwm sylfaenol i bobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru: Arolwg dilynol

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Coram Voice a Chanolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd i gynnal arolwg 'Eich Bywyd Tu Hwnt i Ofal' fel rhan o'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy’n Gadael Gofal yng Nghymru (y Cynllun Peilot).

Bydd Coram Voice a CASCADE yn casglu gwybodaeth drwy gynnal arolwg. Bydd yr wybodaeth yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall sut mae’r cynllun peilot yn gweithio a pha effaith y mae'n ei chael ar fywydau’r rhai sy’n gadael gofal yng Nghymru.

Nod yr arolwg hwn yw deall sut mae’r cynllun peilot yn effeithio ar eich llesiant. Mae’r arolwg yn holi am eich bywyd a sut rydych chi’n teimlo. Gofynnwyd i chi gymryd rhan mewn arolwg ar ddechrau'r cynllun peilot a nawr, ddwy flynedd yn ddiweddarach, mae Llywodraeth Cymru, Coram Voice a CASCADE yn gofyn i chi gymryd rhan mewn arolwg dilynol. Y rheswm dros ofyn ichi ymateb i'r arolwg ddwywaith yw er mwyn inni allu gweld sut mae’r Cynllun Peilot wedi effeithio ar fywydau’r rhai sy’n gadael gofal dros gyfnod y cynllun. Byddwch yn parhau i allu cwblhau'r arolwg hwn hyd yn oed os na wnaethoch gwblhau'r arolwg ar ddechrau'r cynllun peilot.

Llywodraeth Cymru yw rheolwr y data ar gyfer y gwaith ymchwil.

Caiff yr wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect ei chynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru ac mewn cyhoeddiadau eraill gan Lywodraeth Cymru (er enghraifft, y gwerthusiad ehangach) ac efallai gan CASCADE, Coram Voice a Chanolfan Rees ym Mhrifysgol Rhydychen.. Ni fydd modd eich adnabod chi oddi wrth yr adroddiad.

Byddwch yn cael taleb siopa gwerth £20 yn ddiolch am gymryd rhan yn yr arolwg. Bydd y daleb yn cael ei rhoi i chi drwy e-bost neu SMS oddi wrth CASCADE.

Susanna Larsson yw'r unigolyn cyswllt yn Coram Voice am y gwaith ymchwil hwn. Cyfeiriad e-bost: susanna.larsson@coramvoice.org.uk

Rhif ffôn: 0207 239 7526

Y cyswllt ar gyfer y gwaith ymchwil hwn yn CASCADE yw David Westlake. Cyfeiriad e-bost: basicincomecascade@cardiff.ac.uk

Rhif ffôn: 02920 870 246

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

### Pa ddata personol a gedwir gennym, ac o ble yr ydym yn cael yr wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson adnabyddadwy y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at ffactor adnabod.

Mae Llywodraeth Cymru a CASCADE yn dal eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn. Mae Llywodraeth Cymru a CASCADE yn cadw'r manylion hyn am eich bod wedi eu rhoi iddynt wrth lenwi'r ffurflen daliadau ar gyfer y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol. Bydd Llywodraeth Cymru a CASCADE yn defnyddio'r rhain i gysylltu â chi ynghylch yr arolwg.

Gofynnir i chi rannu eich enw a'ch dyddiad geni fel rhan o'r arolwg.. Mae angen yr wybodaeth hon am y rhesymau canlynol:

- Galluogi Coram Voice a CASCADE i fonitro cyfraddau ymateb yr arolwg a sicrhau bod yr arolwg yn cael ei gwblhau gan rai sy'n cael yr incwm sylfaenol a neb arall.
- Gallu cysylltu'ch atebion i'r arolwg yn ddienw â ffynonellau data eraill fel rhan o'r gronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) ar gyfer- dibenion ymchwil anfasnachol yn unig, os nad ydych yn gofyn i'r gwaith cysylltu hwn gael ei hepgor (gweler y nodyn esboniadol ar y diwedd). Caiff data dienw'r arolwg eu cadw'n ddiogel ac at ddibenion ymchwil anfasnachol yn unig y cânt eu defnyddio. Ni fyddwn yn rhannu nac yn defnyddio eich gwybodaeth at unrhyw ddibenion masnachol na marchnata.
- Yn yr arolwg 'Eich Bywyd Tu Hwnt i Ofal', gofynnwn am eich manylion cyswllt (cyfeiriad e-bost a rhif ffôn) fel y gall CASCADE roi taleb siopa gwerth £20 yn ddiolch i chi am gymryd rhan yn yr arolwg.

Bydd Coram Voice yn creu arolwg a dolen gyffredinol at yr arolwg i chi ei defnyddio wrth fynd ati i gwblhau'r arolwg. Bydd yr wybodaeth a roddwch fel rhan o'r arolwg yn cael ei chadw ar wahân i'ch manylion cyswllt fel na ellir cysylltu eich ymatebion i'r cwestiynau yn yr arolwg â chi.

Os byddwch yn gofyn cwestiwn neu'n cwyno ac yn rhoi data personol er mwyn gallu cael ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y data at y swyddog perthnasol ac yna'n eu dileu o ddata'r ymchwil.

### Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi CASCADE i gynnal gwerthusiad o'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol a Coram Voice i weinyddu'r Arolwg Eich Bywyd Tu Hwnt i Ofal. Gwneir y gwaith hwn o dan gontract, ac mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn gosod gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel. Bydd Coram Voice yn rhannu eich ymatebion i'r arolwg â Phrifysgol Caerdydd (CASCADE) at ddibenion cwblhau'r gwerthusiad o'r cynllun peilot incwm sylfaenol i bobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru.

Nod y gwerthusiad yw ceisio deall yr effaith y mae'r cynllun peilot wedi ei gael ar fywydau'r bobl hynny sy'n gymwys i fod yn rhan ohono. Gan ddefnyddio eich ymatebion i'r arolwg, nod y gwerthuswyr yw dod i ddeall a ellir priodoli i'r cynllun peilot incwm sylfaenol unrhyw newid ym mywydau'r cyfranogwyr. Gellir ymchwilio i hyn drwy ddefnyddio eich ymatebion i'r arolwg. Bydd Coram Voice yn darparu ymatebion i'r arolwg i CASCADE er mwyn i CASCADE allu monitro cyfraddau ymateb yr arolwg a dadansoddi'r ymatebion iddo.

Pan fydd tîm ymchwil Coram Voice yn edrych ar eich atebion, bydd hefyd yn dileu unrhyw sylwadau a allai helpu rhywun i ddyfalu pwy ydych chi, er enghraifft, pe baech wedi ysgrifennu enw eich Cynorthwyydd Person Ifanc.

Er mwyn i ddata gael eu cysylltu’n ddienw yng nghronfa data SAIL, bydd Coram Voice yn rhannu ymatebion i'r arolwg (yn unig) â SAIL, ac yna'n rhannu eich manylion (enw, dyddiad geni a dynodwr arolwg unigryw, ond nid eich ymatebion i'r arolwg) â Llywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi eich manylion (enw, dyddiad geni a dynodwr arolwg unigryw) a'ch rhif Yswiriant Gwladol (a ddarparwyd gennych wrth gofrestru) i Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW). Bydd DHCW wedyn yn rhoi dynodwr unigryw i SAIL er mwyn caniatáu i ddata gael eu cysylltu o fewn SAIL mewn ffordd nad yw’n ei gwneud yn bosibl i'ch adnabod.

Ni fydd eich awdurdod lleol yn gweld eich ymatebion i’r arolwg. **Fodd bynnag, os byddwch yn dweud wrthym eich bod chi neu rywun arall mewn perygl difrifol o niwed, efallai y bydd yn rhaid inni roi gwybod i'ch awdurdod lleol, er mwyn eich cadw chi, neu nhw, yn ddiogel.**

### Beth yw’r sail gyfreithiol dros ddefnyddio'ch data?

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein gorchwyl cyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn fater cwbl wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel y rhain yn bwysig i Lywodraeth Cymru ar gyfer casglu gwybodaeth a thystiolaeth y gellir

gweithredu arnynt ynghylch ei gallu i wireddu ei blaenoriaethau. Er enghraifft, efallai y caiff yr wybodaeth a gasglwyd ei defnyddio er mwyn:

- Deall sut mae'r incwm sylfaenol yn effeithio ar fywydau'r rhai sy'n ei gael.
- Deall y ffyrdd gorau i Lywodraeth Cymru gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal yng Nghymru.

### Pa mor ddiogel yw unrhyw ddata personol a gyflwynir?

Mae gwybodaeth bersonol a ddarperir i Coram Voice bob amser yn cael ei storio mewn ffolder 'storfa ddata ddiogel' ar y gweinydd ac ar wahân i'ch atebion i'r arolwg Dim ond dau aelod o staff o'r tîm ymchwil fydd â mynediad at eich enw a'ch dyddiad geni. Mae'r wybodaeth a roddir i CASCADE yn cael ei chadw mewn man diogel ar eu gweinyddion. Mae gan Coram Voice a CASCADE ardystiad hanfodion seiber.

Wrth gynnal arolygon, mae Coram Voice yn defnyddio rhaglen feddalwedd arolwg o'r enw SmartSurvey. Rydym wedi sicrhau bod SmartSurvey yn cydymffurfio â GDPR y DU, ac yn bodloni ein disgwyliadau o ran diogelwch unrhyw ddata a gesglir drwy'r feddalwedd (e.e. caiff yr holl ddata eu prosesu yn y Deyrnas Unedig).

Mae Coram Voice a CASCADE wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ymdrin ag unrhyw achosion lle ceir amheuaeth o dorri rheolau diogelu data. Os ceir amheuaeth bod rheolau diogelu data wedi cael eu torri, bydd Coram Voice a CASCADE yn adrodd am hyn wrth Lywodraeth Cymru a fydd yn rhoi gwybod ichi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol lle mae'n ofynnol inni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

Bydd Coram Voice yn defnyddio meddalwedd trosglwyddo dogfennau'n ddiogel i drosglwyddo unrhyw ddata personol i Lywodraeth Cymru, ac i CASCADE fel rhan o'r broses o anfon gwybodaeth i DHCW a SAIL.

### Am faint rydym yn cadw'ch data personol?

Bydd Coram Voice yn cadw data personol yn ystod cyfnod y contract a chaiff unrhyw ddata personol na chawsant eu tynnu allan eisoes yn ystod y gwaith o'u dadansoddi eu dileu dri mis ar ôl diwedd y contract. Mae hyn yn cynnwys eich enw, eich manylion cyswllt a'ch dyddiad geni yn ogystal ag unrhyw ddata personol a roddir gennych fel rhan o'ch ymateb i'r arolwg.

Caiff Prifysgol Caerdydd eich data oddi wrth Coram Voice, a bydd yn eu dileu o fewn 3 mis i ddiwedd ei chontract â Llywodraeth Cymru yn 2027.

Bydd gan Lywodraeth Cymru fynediad at eich data personol a'ch atebion i'r arolwg am gyfnod o dri mis, nes i'r gwaith o gysylltu data gyda SAIL (Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw) gael ei gwblhau.

Caiff DHCW fynediad at ran o’r data personol hefyd am gyfnod o dri mis, hyd nes y bydd y gwaith o gysylltu’r data â SAIL wedi’i gwblhau.

### Eich Hawliau

O dan GDPR y DU, mae gennych yr hawliau canlynol mewn cysylltiad â’r wybodaeth bersonol y byddwch yn ei rhoi:

- Cael mynediad at gopi o'ch data eich hun
- Ei gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data hynny,
- I wrthwynebu neu gyfyngu ar unrhyw brosesu (o dan amgylchiadau penodol);
- I'ch data gael eu ‘dileu’ (o dan amgylchiadau penodol); ac
- I gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

### Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych ragor o gwestiynau am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon, neu os ydych yn dymuno arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Launa Anderson (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru)
e-bost: Launa.Anderson@llyw.cymru
Ffôn 03000 259274

Dyma fanylion cysylltu Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru:
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ

e-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru.

### Nodyn esboniadol

Casgliad o ddata dienw am boblogaeth Cymru yw cronfa ddata SAIL, sy’n cael ei gydnabod yn rhyngwladol am storio’n ddiogel a defnyddio data dienw sy’n seiliedig ar unigolion ar gyfer ymchwil i wella iechyd, lles a gwasanaethau. Gall ymatebwyr ddewis peidio â chysylltu eu hatebion. I gael rhagor o wybodaeth am sut i wneud hynny neu ynghylch cysylltu data, ewch i dudalen *Bright Spots Survey* ar wefan Coram Voice.

# Sut ydym yn cysylltu eich atebion arolwg i gofnodion erall?

